**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

# Lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon

Mawrth 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8032
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

# Lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon

Mawrth 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Christine Chapman (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Leighton Andrews**
Llafur Cymru
Rhondda



**Peter Black**
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



**Jocelyn Davies**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Janet Finch-Saunders**
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Mark Isherwood**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**Gwyn R Price**
Llafur Cymru
Islwyn



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Rhodri Glyn Thomas**
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Ken Skates**
Llafur Cymru
De Clwyd



**Lindsay Whittle**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** ..... 5

**Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion** ..... 7

**Cefndir** ..... 9

Cylch gorchwyl ..... 9

Dull ..... 9

**1. Lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon – y sefyllfa gyfredol** ..... 10

Cefndir ..... 10

Pryderon am lefelau cyfranogiad ..... 10

Cysylltiadau â rhaglenni gweithgarwch corfforol eraill ..... 11

Camau sy'n cael eu cymryd i wella lefelau cyfranogiad ..... 12

Tystiolaeth o gynnydd ..... 12

**2. Setiau data ac ystadegau** ..... 16

Arolygon Chwaraeon Cymru ..... 16

Arolygon eraill a data ..... 17

Sylwadau cyffredinol ar yr arolygon a'r data sydd ar gael ..... 17

Data ar gyfranogiad ymhlith grwpiau nodweddion gwarchodedig a gwahaniaethu ..... 19

**3. Rhwystrau a chyfleoedd** ..... 23

Agweddau at chwaraeon ..... 23

Chwaraeon yn amgylchedd yr ysgol ..... 23

Rhwystrau i fenywod a merched ..... 24

Rhwystrau i bobl anabl ..... 25

Rhwystrau i grwpiau economaidd-gymdeithasol tlotach ..... 26

Rhwystrau i bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ..... 27

Rhwystrau i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ..... 28

**4. Swyddogaeth awdurdodau lleol** ..... 34

Pwysau ariannol ..... 34

Cydweithio i ddarparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden ..... 34

Cynyddu'r ddarpariaeth o gyfleusterau chwaraeon ........................ 35
Cynllun Nofio Am Ddim ................................................................ 36
**Tystion** .................................................................................................. **41**
**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ........................................................ **43**

## Rhagair y Cadeirydd

Mae llawer o bobl yn cytuno bod gweithgarwch corfforol yn bwysig er mwyn cadw'n iach. Mae cymryd rhan mewn chwaraeon yn rhywbeth y gall arwain at fanteision sylweddol i'n cymunedau a'n ffordd o fyw.


Ar yr un pryd, gwyddys am beryglon gordewdra a diffyg ymarfer corff a goblygiadau hynny ar gyfer ein lles, ac mae'r problemau hyn yn amlwg iawn yng Nghymru a thu hwnt. Dangoswyd hefyd fod pobl ifanc sydd â ffordd o fyw afiach yn fwy tebygol o gael eu heithrio o weithgareddau cymdeithasol ac addysg.

Un o nodau allweddol Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw gwella cyfranogiad mewn chwaraeon er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn. Pan lansiwyd yr ymchwiliad hwn, roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi bod gostyngiad pryderus yn y niferoedd o bob grŵp oedran a oedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru. Felly, roedd y Pwyllgor yn awyddus i brofi'r ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn sicrhau canlyniadau o ran annog mwy o bobl i wneud mwy o weithgarwch corfforol yn fwy rheolaidd, ac yn ymyrryd er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw.

Ein nod oedd ystyried sut y caiff cyfleoedd eu creu i annog grwpiau gwahanol o bobl yng Nghymru i gymryd rhan mewn chwaraeon. Roedd y rhwystrau sy'n atal rhai grwpiau rhag gwneud hynny yr un mor bwysig inni. Dylai'r cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon fod ar gael i bawb, beth bynnag yw eu hoedran neu eu gallu. Mae angen inni sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd ar gael, i'r rhai sydd am gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ffordd ffurfiol neu gystadleuol, yn ogystal â'r rhai y mae'n well ganddynt weithgareddau hamdden. Ein bwriad oedd asesu'r graddau yr oedd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag anawsterau o ran y materion hyn, a nodi beth arall sydd angen ei wneud. Wrth gwrs, nid yw Llywodraeth Cymru ar ei phen ei hun wrth fwrw ymlaen â'r agenda chwaraeon. Y brif asiantaeth gyflawni yn y cyd-destun hwn yw Chwaraeon Cymru, a lansiodd ei 'Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru' yn 2010. Roedd y ddogfen hon yn addo 'newid cwbl unigryw mewn diwylliant' ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, a fyddai'n fodd i Chwaraeon Cymru ddatblygu a sicrhau profiadau cadarnhaol i bawb.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn bartneriaid pwysig o ran darparu cyfleusterau chwaraeon a chyfleoedd i gymryd rhan, nid yn unig yn ein hysgolion ond hefyd yn ehangach yn ein cymunedau. Gyda chyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu toriadau sylweddol i'w cyllidebau a newidiadau dros y blynyddoedd nesaf, roedd y goblygiadau posibl o ran darparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden hefyd yn rhan ganolog o'n trafodaethau.

Rydym yn cydnabod y camau y mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wedi'u cymryd hyd yma i wella lefelau cyfranogiad, ond mae'n amlwg mai araf y bu'r cynnydd o ran sicrhau newid. Rydym wedi gwneud cyfanswm o 12 argymhelliad. Edrychwn ymlaen at glywed ymateb Llywodraeth Cymru, gan fod hwn yn faes polisi a all gael effaith ddramatig ar ein dyfodol fel cenedl iach. Hoffwn estyn diolch ar goedd i'r holl unigolion a sefydliadau hynny a rannodd eu profiad drwy gyflwyno tystiolaeth ac ymddangos gerbron y Pwyllgor. Hoffwn hefyd estyn diolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu hymrwymiad i'r ymchwiliad.



**Christine Chapman**
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Mawrth 2014

## Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion

Mae argymhellion y Pwyllgor i'r Gweinidog i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

**Argymhelliad 1** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar y cyd a gynhyrchwyd gan Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd ag amserlen ar gyfer ei roi ar waith. Dylai hyn gynnwys canlyniadau y cytunwyd arnynt y gellir eu defnyddio i fesur llwyddiant y cynllun. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 2** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal adolygiad o'r holl ffynonellau data presennol sy'n mesur lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon, gan gynnwys y dull a ddefnyddir yn arolygon Chwaraeon Cymru. Dylai adolygiad y Gweinidog ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r pryderon am y diffyg data ar sut y mae amddifadedd, demograffeg, nodweddion gwarchodedig a rhwystrau diwylliannol yn effeithio ar lefelau cyfranogiad. Dylid adlewyrchu unrhyw welliannau sy'n ymwneud â gwaith Chwaraeon Cymru yn ei Lythyrau Cylch Gwaith blynyddol yn y dyfodol. (Tudalen 21)

**Argymhelliad 3** O ran cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru a sefydliadau perthnasol i nodi dull amgen a mwy effeithiol o gasglu data ar lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon o fewn y cymunedau hyn. ( Tudalen 22)

**Argymhelliad 4** Roedd yn peri pryder i ni glywed am y diffyg athrawon Addysg Gorfforol o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i fynd i'r afael â hyn. (Tudalen 32)

**Argymhelliad 5** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i ddiffinio a chyhoeddi'r canlyniadau a fydd yn cael eu defnyddio i fesur llwyddiant ei Strategaeth Chwaraeon Cymunedol a'i Strategaeth Tlodi Plant. Rydym hefyd yn argymell bod trefniadau cadarn yn cael eu gwneud i fonitro a gwerthuso llwyddiant y Strategaethau hyn, ac i ddeall eu heffaith ar lefelau cyfranogiad. ( Tudalen 32)

**Argymhelliad 6** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i sefydlu rhaglen i nodi ac yna mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfranogiad mewn chwaraeon sy'n benodol i bobl o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Dylai hyn gynnwys gwneud gwaith ymchwil i ddeall yn well beth yw'r rhwystrau hyn. (Tudalen 33)

**Argymhelliad 7** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi cynllun gweithredu yn nodi sut mae'n bwriadu gwella lefelau cyfranogiad ymhlith pobl mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Dylai hyn gynnwys cyfres o ganlyniadau y gellir eu mesur. (Tudalen 33)

**Argymhelliad 8** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn sicrhau bod rhagor o waith yn cael ei wneud i nodi ffyrdd o annog merched i gymryd rhan mewn chwaraeon. Dylai hyn gynnwys gwaith ymchwil i'r mathau o chwaraeon neu weithgareddau sy'n apelio i ferched yn benodol, a'r ffactorau sy'n effeithio ar eu cyfranogiad. ( Tudalen 33)

**Argymhelliad 9** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i asesu effaith y gostyngiadau i gyllidebau awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau chwaraeon a hamdden ar fynediad a fforddiadwyedd. (Tudalen 39)

**Argymhelliad 10** Rydym yn argymell bod y Gweinidog a Chwaraeon Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi cyfleoedd i gynyddu a gwella mynediad at gyfleusterau hamdden ledled Cymru. (Tudalen 39)

**Argymhelliad 11** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal adolygiad o'r Cynllun Nofio Am Ddim er mwyn nodi ardaloedd lle mae'r nifer sy'n manteisio arno yn isel a'r rhesymau am hyn, ac yn adrodd yn ôl i ni ar ei ganfyddiadau. (Tudalen 39)

**Argymhelliad 12** Rydym yn argymell hefyd bod y Gweinidog yn gweithio gydag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r amrywiad yn y ddarpariaeth o nofio am ddim ledled Cymru. Dylai'r Gweinidog hefyd gyhoeddi cynllun gweithredu yn nodi sut mae'n bwriadu cynyddu nifer y plant dan 11 oed sy'n gallu nofio. (Tudalen 40)

# Cefndir

1. Mae ehangu cyfranogiad mewn chwaraeon er mwyn cynyddu gweithgarwch corfforol yn nod allweddol yn *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru. Ar 25 Ebrill 2013, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i ystyried sut roedd Llywodraeth Cymru yn perfformio yn hyn o beth.

**Cylch gorchwyl**

2. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl canlynol:

- i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn cyflawni'r nodau a amlinellwyd yn y Rhaglen Lywodraethu, yn y cynllun gweithredu Creu Cymru Egnïol ac yn Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru o ran lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon;
- i ba raddau y mae setiau data ac ystadegau ar gael ar gyfer mesur lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon, yn enwedig rhai a gaiff eu dadgyfuno yn ôl meysydd cydraddoldeb a grwpiau economaidd-gymdeithasol;
- y cyfleoedd a'r rhwystrau y mae gwahanol grwpiau o bobl yn eu hwynebu o ran cymryd rhan mewn chwaraeon, gan gynnwys yn ôl meysydd cydraddoldeb a grwpiau economaidd-gymdeithasol;
- beth yw'r cysylltiadau rhwng rhaglenni ar gyfer datblygu chwaraeon yng Nghymru a mentrau eraill Llywodraeth Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol;
- effaith y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, Cwpan Ryder a digwyddiadau proffil uchel a llwyddiannau eraill ym maes chwaraeon yng Nghymru ar lefelau cyfranogi yng Nghymru.

**Dull**

3. Gwnaeth y Pwyllgor alwad am dystiolaeth ysgrifenedig a derbyniodd 17 o ymatebion. Cynhaliodd y Pwyllgor bedair sesiwn tystiolaeth lafar ar 19 Mehefin, 27 Mehefin, 3 Gorffennaf a 26 Medi 2013. Mae rhestr o'r rhai a roddodd dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar gael ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

4. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a ddarparodd dystiolaeth i lywio'i waith.

# 1. Lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon – y sefyllfa gyfredol

## Cefndir

5. Yn ystod yr ymchwiliad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hadolygiad Blynyddol diweddaraf (Mehefin 2013) o'i *Rhaglen Lywodraethu.* Nododd hwn y bu dirywiad sy'n peri gofid i gyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith pob grŵp oedran, yn enwedig yng ngoleuni'r goblygiadau iechyd dilynol. Gwnaeth hyn ein hymchwiliad yn amserol ac yn berthnasol.

6. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r cyfeiriad polisi cyffredinol ar gyfer rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Yna darperir y rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru (tua £24 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd) i Chwaraeon Cymru fodloni'r amcanion hynny ar ei rhan.

7. Mae'r fframwaith polisi sy'n sail i'r gwaith yn y maes hwn yn cynnwys:

- Cynllun gweithredu *Creu Cymru Egnïol* (2010) Llywodraeth Cymru, sydd â'r nod o'i gwneud yn haws i bobl fod yn fwy egnïol yn amlach;
- Dogfen eang *Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru* (2010) Chwaraeon Cymru, sy'n esbonio sut y gall gyflawni agenda chwaraeon a gweithgarwch corfforol Llywodraeth Cymru;
- Strategaeth Chwaraeon Cymunedol a strategaeth Tlodi Plant Chwaraeon Cymru, a'i strategaethau ar gyfer gwirfoddoli a hyfforddi ac ar gyfer chwaraeon elît.

## Pryderon am lefelau cyfranogiad

8. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei dystiolaeth:

> "Participation levels in sport have been static for a decade or more despite a range of promotions and incentives provided by Sport Wales. However, this is no different to the equally static trend in physical activity in the population generally which has also not shifted for many years."[1]

[1] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 17

9. Dywedodd fod y rhesymau am hyn yn gymhleth a bod angen cyfeirio ymdrechion i wrthdroi'r duedd hon yn y dyfodol nid yn unig at y boblogaeth gyfan ond mae angen iddynt gydnabod gwahanol gymhellion is-grwpiau, trwy ddatblygu amrywiaeth o ddulliau ategol.[2]

10. Yn ôl Chwaraeon Cymru, mae'r tueddiadau cyfranogiad wedi aros yn sefydlog dros y 25 mlynedd ddiwethaf. Mae dynion yn fwy tebygol o gymryd rhan na menywod, yn enwedig mewn chwaraeon clwb ffurfiol. Mae oedolion mewn cartrefi graddfa gymdeithasol uwch yn fwy tebygol o gymryd rhan, ac mae oedolion iau yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon nag oedolion hŷn.[3]

11. Nododd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon fod y sefyllfa yn arbennig o wael ar lefel ysgolion. Hysbysodd am ddirywiad i ganran y plant ysgol gynradd ac uwchradd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden egnïol, wrth i gyfranogiad disgyblion ysgol uwchradd ostwng 12% rhwng 2009 a 2011.[4]

12. Yn ôl Undeb Cenedlaethol yr Athrawon:

> "It is quite plain to see that the Government is not achieving the goals it set out to achieve in the *Programme for Government* which was, through Sport Wales, to widen participation in sport and programmes targeted at increasing physical activity."[5]

## Cysylltiadau â rhaglenni gweithgarwch corfforol eraill

13. Pwysleisiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru mai dim ond un agwedd ar weithgarwch corfforol yw chwaraeon ac mae ochr yn ochr â chwarae egnïol, trafnidiaeth egnïol a gwaith fel cyfranwyr allweddol eraill at fyw egnïol.[6] Meddai:

> "Whilst there are numerous potential links…it is probably fair to say that these have not been fully exploited or realised."[7]

14. Dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru y gellid gwella cysylltiadau a gwaith ar y cyd ar draws y llywodraeth gyfan ac na all chwaraeon ddarparu'r newid sylweddol i ymddygiad sy'n angenrheidiol

---

[2] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 17
[3] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09
[4] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 13
[5] ibid
[6] ibid
[7] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09

i fodloni'r targedau yn *Creu Cymru Egnïol* heb fwy o gydweithrediad ag addysg, gwasanaethau plant, iechyd, trafnidiaeth, datblygu economaidd a chynllunio.[8]

**Camau sy'n cael eu cymryd i wella lefelau cyfranogiad**

15. Amlinellodd Chwaraeon Cymru yn ei dystiolaeth sut roedd yn credu y gallai ei *Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru* (2010) gyfrannu at wella lefelau cyfranogiad a pherfformiad mewn chwaraeon yng Nghymru. Mae'r *Weledigaeth* yn ymrwymo i newid sylweddol i'r ddarpariaeth, wrth i Chwaraeon Cymru ddatblygu'n sefydliad 'her fawr, cefnogaeth fawr' o ran gweithio â phartneriaid.

16. Dywedodd Chwaraeon Cymru fod y *Weledigaeth* yn canolbwyntio ar weithio gyda'r chwaraeon sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf, gan gynnig cyfleoedd i filoedd yn hytrach na channoedd o bobl, a buddsoddiad wedi ei alinio i sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Mae'n pwysleisio'r angen i gydweithio a chanolbwyntio ar weithgareddau cymunedol.

17. Dywedodd Chwaraeon Cymru ei fod yn frwdfrydig am fynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'i bartneriaid er mwyn cyflawni ein dyheadau i Gymru a'i chymunedau. Fodd bynnag, byddai cynnydd yn golygu bod yn llawer mwy afresymol o uchelgeisiol ac y byddai'n rhaid i sefydliadau o fewn y sector newid yn sylweddol.[9]

18. Awgrymodd Iechyd Cyhoeddus Cymru bod arferion da a chyfleoedd i ddechrau troi'r fantol yn dod i'r amlwg yn dilyn sawl degawd o ddiffyg ymarfer corff. Fodd bynnag, pwysleisiodd y byddai rhoi newid ar waith yn broses hirdymor.[10]

**Tystiolaeth o gynnydd**

19. Cyhoeddwyd Arolwg 2013 ar Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru ar 9 Hydref 2013, ar ôl i ni orffen casglu tystiolaeth. Fel y cyfryw, ni allwyd cymryd canfyddiadau'r Arolwg i ystyriaeth wrth i ni holi tystion. Prif ganfyddiad yr Arolwg oedd bod nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol dair gwaith yr wythnos neu fwy wedi cynyddu o 27% yn 2011 i 40% yn 2013.

20. Dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru wrthym:

---

[8] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 07
[9] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09
[10] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 17

> "In the last year, significant increases have been seen in participation levels in sports such as gymnastics (25%), swimming (39%), cycling (24%), boxing (33%) and athletics (12%), as well as a 20% increase in disability sports clubs."[11]

21. Dywedodd fod yr achosion hyn o gynnydd yn bennaf o ganlyniad i ymdrechion systematig a pharhaus i wella'r ffordd y darperir chwaraeon. Fodd bynnag, er bod rhai enghreifftiau o gynnydd da, pwysleisiodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru na ddylid diystyru'r gwaith y bu'n rhaid ei wneud a'r cyfnod o amser cyn y gwelir canlyniadau.[12]

22. Yn ôl Chwaraeon Cymru:

> "Overall we believe that the sector is moving in the right direction to increase participation in sport, recognising the barriers and challenges along the way."[13]

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

23. Cydnabuwyd gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (y Gweinidog) nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud y cynnydd y byddai wedi hoffi ei weld o ran lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon.[14]

24. Pan ofynnwyd iddo pam mai dyma'r achos, dywedodd y Gweinidog fod y rhain yn faterion anodd ledled y byd a bod ceisio cynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol yn ymdrech barhaus.

25. Derbyniodd y Gweinidog y byddai gofyn gwneud rhagor o waith ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector chwaraeon i gyflawni'r gwelliannau yr hoffai'r Llywodraeth eu gweld. Meddai:

> "Mae'n amlwg bod angen i ni oresgyn yr anawsterau sylweddol sy'n bodoli o ran denu mwy o bobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn rheolaidd. I wneud hyn, mae'n rhaid i ni gydgysylltu ein polisïau'n well er mwyn ein helpu i ddod yn genedl iachach a mwy heini. Mae yna rai enghreifftiau da o gydweithio ledled portffolios Llywodraeth Cymru ond mae lle i wella yn y maes hwn a byddaf yn gweithio

---

[11] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09
[12] ibid
[13] ibid
[14] Cofnod y Trafodion, para 5, 3 Gorffennaf 2013

gyda Gweinidogion eraill i sicrhau ein bod yn datblygu'n nodau a'n hamcanion cyffredin."[15]

26. Nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Gweithredol Gweithgaredd Corfforol, 'a fydd yn gosod cyfeiriad newydd i gynyddu lefelau o weithgaredd corfforol'. Roedd aelodau'r Grŵp yn cynnwys y Gweinidog Chwaraeon, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Swyddog Meddygol. Ei swyddogaeth oedd nodi ffyrdd o roi newid ymddygiad ar waith a chyflymu cynnydd.[16]

27. Mae Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidog at Chwaraeon Cymru ar gyfer 2013-14 yn cyfeirio at yr angen i 'ganfod ffyrdd o brif ffrydio gweithgarwch corfforol ymhellach ym mhob un o bortffolios y Llywodraeth a datblygu ffrydiau gwaith ar y cyd trwy gydweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth'. Byddai hyn yn golygu Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llunio 'cynllun gweithredu ar y cyd' i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol.

28. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi bod yn ystyried y cyfleoedd ar gyfer gwella mynediad at yr awyr agored ar gyfer gweithgarwch corfforol, ac y gallai deddfwriaeth fod yn rhan o'r ateb. Mae rhan o'r agenda hwn yn cynnwys Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n ceisio sicrhau mai cerdded a beicio yw'r ffordd arferol o gyflawni teithiau byr.[17]

### *Ein Barn*

29. Ers i ni gynnal ein hymchwiliad, rydym yn falch bod Arolwg 2013 ar Chwaraeon Ysgol yn dynodi bod cynnydd wedi ei wneud o ran cynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith plant ysgol. Cawsom ein calonogi hefyd gan y cynnydd i gyfranogiad mewn chwaraeon penodol a adroddwyd gan Gymdeithas Chwaraeon Cymru.

30. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gyfuno polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgarwch corfforol. Hoffem gael rhagor o fanylion gan y Gweinidog am swyddogaeth y Grŵp Gweithredol Gweithgaredd Corfforol, gan gynnwys ei nodau ac amcanion a chynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran bodloni'r rhain.

---

[15] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 15
[16] ibid
[17] ibid

**Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar y cyd a gynhyrchwyd gan Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd ag amserlen ar gyfer ei roi ar waith. Dylai hyn gynnwys canlyniadau y cytunwyd arnynt y gellir eu defnyddio i fesur llwyddiant y cynllun.**

31. Rydym yn cydnabod y cyfraniad posibl y gall Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ei wneud o ran iechyd a lles. Fodd bynnag, rydym yn ailadrodd y pryderon a godwyd yn ystod ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 o ran gweithrediad effeithiol y Ddeddf a'r Cynllun Gweithredu Teithio Llesol ategol gyda dyraniad o £0.3 miliwn yn unig. Roeddem yn siomedig bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn amharod i drafod y Ddeddf yn fanwl gyda'r Pwyllgor, er mai ei Hadran hi sy'n gyfrifol am ariannu ei gweithrediad.

32. Yn olaf, rydym yn croesawu dyheadau Chwaraeon Cymru o ran cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon. Mae lefelau cyfranogiad, yn gyffredinol, wedi aros yr un fath ers nifer o flynyddoedd ac felly rydym yn croesawu'r ymrwymiad i newid sylweddol i'r ddarpariaeth.

33. Serch hynny, rydym o'r farn bod angen gwneud rhagor o waith o hyd i sicrhau'r newid ymddygiad sy'n ofynnol i fodloni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu cyfranogiad mewn chwaraeon. Er ein bod yn cydnabod nad yw'r problemau yn unigryw i Gymru, rydym o'r farn y gall y Gweinidog gymryd camau cryfach, ac roeddem yn siomedig nad oedd yn ymddangos bod ei dystiolaeth yn adlewyrchu'r brys sydd ei angen o ran mynd i'r afael â'r mater hwn.

34. Mae ein hadroddiad yn gwneud nifer o argymhellion mewn tri maes penodol felly:

- setiau data ac ystadegau a ddefnyddir i lywio polisïau ar gyfer chwaraeon;
- rhwystrau sy'n atal grwpiau penodol o bobl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon;
- swyddogaeth awdurdodau lleol.

35. Rydym o'r farn y gallai mynd i'r afael â'r pryderon hyn gyfrannu'n sylweddol at wneud Cymru yn genedl fwy heini ac iach. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, rydym yn disgwyl i'r Gweinidog amlinellu'n eglur pa weithredoedd a chamau penodol y mae'n bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

# 2. Setiau data ac ystadegau

### Arolygon Chwaraeon Cymru

36. Mae Chwaraeon Cymru yn cynnal dau arolygiad mawr bob yn ail flwyddyn: yr Arolwg ar Oedolion Egnïol a'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol.

37. Cynhaliwyd yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol diweddaraf yn ystod tymor yr haf 2013 a chanfuwyd barn 110,000 o blant ysgol o tua 1,000 o ysgolion.

38. Yn ôl Chwaraeon Cymru, yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 'yw'r arolwg mwyaf o unrhyw fath ar bobl ifanc yn y DU, a chredir mai hwn yw'r arolwg mwyaf o'i fath yn y byd'. Bwriedir i'r data o'r arolwg hwn alluogi Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid 'i fonitro a chofnodi tueddiadau mewn Addysg Gorfforol (AG) a chwaraeon ysgol mewn ffordd strategol'. Bwriedir i'r arolwg 'ddarparu sylfaen sy'n sail ar gyfer llunio polisïau ac arferion chwaraeon arni' hefyd.[18]

39. Comisiynwyd yr Arolwg ar Oedolion Egnïol diweddaraf gan Chwaraeon Cymru yn 2012. Mae'r arolwg yn cynnwys tua 22,000 o gartrefi ac yn trafod nifer o bynciau, gan gynnwys:

- cyfranogiad mewn amrywiaeth o chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol;
- aelodau o glybiau chwaraeon a chyfranogiad ynddynt;
- gwirfoddoli mewn chwaraeon;
- cyfranogiad mewn chwaraeon cystadleuol;
- defnydd o ganolfannau hamdden a ffitrwydd;
- rhwystrau a chymhellion ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon.

40. Cesglir amrywiaeth o wybodaeth ddemograffig i'w dadansoddi hefyd, gan gynnwys rhyw, dosbarth cymdeithasol, oedran, anabledd a strwythur y cartref.

41. Yn ôl Chwaraeon Cymru, yr Arolwg ar Oedolion Egnïol yw'r 'ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr o wybodaeth am faint a'r math o chwaraeon a gweithgarwch corfforol y mae oedolion yng Nghymru yn cymryd rhan ynddo'.

---

[18] www.sportwales.org.uk

## Arolygon eraill a data

42. Esboniodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y defnyddir data o Arolwg Iechyd Cymru, Cytundeb Partneriaeth yr Awdurdodau Lleol ac Uned Ddata Cymru i fesur lefelau cyfranogiad, yn ogystal â'r arolygon uchod. Esboniodd ymhellach fod 'Data Datblygu Chwaraeon' awdurdodau lleol, sy'n cynnwys pa mor aml y cymerir rhan ac a ddarparodd ddadansoddiad yn ôl oedran a rhyw, yn cael ei fwydo i mewn i uned ymchwil Chwaraeon Cymru yn rhan o Gytundeb Partneriaeth yr Awdurdodau Lleol.[19]

43. Adroddodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru y cesglir data aelodaeth Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol yn flynyddol yn gyffredinol, ond dim ond gan bobl sy'n gysylltiedig â Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol neu sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a drefnwyd. Esboniodd y gall y rhan fwyaf o chwaraeon ddarparu dadansoddiad fesul rhyw a nifer gynyddol ar sail anabledd ac ethnigrwydd, ond ni chesglir gwybodaeth economaidd-gymdeithasol fel rheol.

44. Yn ôl Cymdeithas Chwaraeon Cymru, mae Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol yn defnyddio'r data sydd ganddynt fwyfwy i hysbysu gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau.[20] Esboniodd Chwaraeon Cymru ei fod wedi buddsoddi mewn swyddi ymchwil a rennir gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol i'w hannog i nodi'r data sydd ganddynt a'i ddefnyddio'n effeithiol.[21]

## Sylwadau cyffredinol ar yr arolygon a'r data sydd ar gael

45. Pwysleisiodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) ac Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru (YBDC) yr angen am ystadegau cadarn i'w galluogi 'i gynllunio'n strategol drwy sicrhau bod amser ac adnoddau yn cael eu buddsoddi'n briodol.' Er bod y ddau sefydliad yn defnyddio data Chwaraeon Cymru fel 'sail ar gyfer datblygu darlun o dueddiadau cyfredol yng Nghymru', codwyd y pryder ganddynt 'nad yw'n cynnig sail digon cadarn i roi camau gweithredu strategol ar waith ar lefel leol'.[22]

46. Roedd pryderon eraill a godwyd gan CBDC ac YBDC o ran arolygon Chwaraeon Cymru yn cynnwys y dulliau samplu a

[19] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 05
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 07
[21] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 10

ddefnyddiwyd, y ddibyniaeth ar gefnogaeth ysgolion, perthnasedd y cwestiynau a pha mor aml y cynhelir yr arolygon.[23]

47. Er i CBDC esbonio ei bod hi a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol eraill wedi bod yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i adolygu'r cwestiynau yn yr arolygon, roedd yn dal i bryderu ei bod yn 'ymddangos bod peth amharodrwydd i symud oddi wrth yr hyn sydd wedi bod yn cael ei wneud dros y blynyddoedd'.[24]

48. Wrth gynnig sylwadau ar faint y sampl a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol, awgrymodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon ei fod yn annigonol i gynnig darlun cywir ac y dylid cynnwys pob plentyn ysgol gynradd ac uwchradd yn yr arolwg.[25]

49. Roedd o'r farn y dylid dadansoddi'r arolygon fesul ardal ym mhob awdurdod lleol er mwyn cynnig darlun mwy eglur o bwy sy'n cymryd rhan ac i helpu i nodi rhwystrau penodol i gyfranogiad yn yr ardaloedd hynny.[26]

50. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru:

> "Improved higher quality, regular and comparable data would allow us to accurately identify the scope, scale, trends and comparators that should inform subsequent actions."[27]

51. Dywedodd fod argymhellion ar wella'r broses o gasglu data wedi cael eu gwneud yn y cynllun gweithredu ar y cyd diweddar a baratowyd gyda Chwaraeon Cymru.[28]

52. Dywedodd Chwaraeon Cymru ei fod yn ymwybodol o'r beirniadaethau o ran maint y sampl a ddefnyddiwyd yn ei arolygon ond nad oedd yn eu derbyn. Esboniodd mai ei Arolwg ar Chwaraeon Ysgol yw'r arolwg mwyaf o blant a gynhelir yng Nghymru ar unrhyw bwnc a dywedodd bod maint y sampl yn sylweddol fwy na rhai arolygon cymharol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru neu'r cyrff mae'n eu noddi.[29]

---

[23] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 10
[24] ibid
[25] Cofnod y Trafodion, para 154, 27 Mehefin 2013
[26] Cofnod y Trafodion, para 152, 27 Mehefin 2013
[27] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 17
[28] ibid
[29] Cofnod y Trafodion, para 14, 19 Mehefin 2013

53. Pwysleisiodd ei fod yn ceisio cael gafael ar wybodaeth trwy ei arolygon, nid yn unig ar lefel genedlaethol neu ranbarthol, ond ar lefel leol ac, yn achos yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol, ar lefel ysgolion, i alluogi awdurdodau lleol, eu partneriaid ac ysgolion i ddefnyddio'r data sydd ar gael yn effeithiol.[30]

54. Gan ymateb i bryderon nad oedd ei arolygon yn ddaearyddol gynrychiadol, cydnabuwyd gan Chwaraeon Cymru ei fod yn ddibynnol ar gefnogaeth awdurdodau lleol ac ysgolion, a oedd yn amrywio'n eithaf sylweddol. Esboniodd:

> "We have put a lot more effort in this year to try and ensure that we get really comprehensive data in all of the authorities."[31]

55. Fodd bynnag, aeth yn ei flaen i nodi ei fod yn cael trafferth gydag un neu ddau o'r awdurdodau.[32]

**Data ar gyfranogiad ymhlith grwpiau nodweddion gwarchodedig a gwahaniaethu**

56. Mynegodd Diverse Cymru bryder am ddiffyg gwybodaeth difrifol am lefelau cyfranogiad grwpiau nodweddion gwarchodedig.[33]

57. Dywedodd hefyd fod tybiaeth fod cyfeiriadedd rhywiol yn amherthnasol yng nghyd-destun casglu data ac nad yw clybiau yn gwybod sut i gefnogi unigolion Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol na sut i hyrwyddo'r gefnogaeth honno.[34]

58. Cwestiynodd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru berthnasedd y cwestiynau yn arolygon Chwaraeon Cymru ac ymgynghoriadau ag unigolion o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.[35]

59. Cwestiynodd hefyd a oedd y rhai a gymerodd ran yn arolygon ac ymgynghoriadau Chwaraeon Cymru yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth ehangach yng Nghymru.[36]

---

[30] Cofnod y Trafodion, para 14, 19 Mehefin 2013
[31] Cofnod y Trafodion, para 31, 19 Mehefin 2013
[32] ibid
[33] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 02
[34] ibid
[35] Cofnod y Trafodion, para 12, 27 Mehefin 2013
[36] ibid

60. Roedd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru o’r farn bod y diffyg gwaith ymchwil i wahaniaethu mewn chwaraeon wedi cael ei ddefnyddio fel rheswm i beidio â mynd i’r afael â’r mater hwn. Hysbyswyd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru y byddai cynnal arolwg ystadegol dichonadwy wedi bod yn rhy ddrud a bu’n aflwyddiannus hefyd wrth geisio cael mynediad at gymorth grant ymchwil. Er hyn, roedd yn bwriadu cynnal ei fenter ymchwil ansoddol gryno ei hun yng nghyswllt gwahaniaethu mewn chwaraeon. [37]

61. Cadarnhaodd Chwaraeon Cymru ei fod yn casglu data ar grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a bod y niferoedd a gymerodd ran yn adlewyrchu’r cyfartaledd cenedlaethol o ran nifer yr unigolion o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd ei bod wedi bod yn anodd cael gafael ar ystadegau cyfranogiad y boblogaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru drwy’r Arolwg ar Oedolion Egnïol erioed, oherwydd y meintiau sampl bach yng Nghymru, a bod lle i wella o hyd.[38] Ystyrir y mater o wahaniaethu mewn chwaraeon a rhwystrau sy’n wynebu cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fwy manwl ym Mhennod 4.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

62. Cydnabuwyd gan y Gweinidog yr angen i gymryd golwg ofalus iawn ar y data rydym yn ei gynhyrchu - pa mor ddefnyddiol ydyw, pa mor benodol ydyw i amgylchiadau lleol a faint mae wedi ei ddadansoddi o ran rhwystrau i gyfranogiad a gwahanol grwpiau mewn cymdeithas. Cydnabuwyd ganddo fod llawer mwy o wybodaeth y gellid ei darparu.[39] Cydnabuwyd gan swyddog y Gweinidog nad yw arolygon yn rhoi’r lefel yna o hyder i ni yn gyffredinol o ran beth yw’r tueddiadau cyfredol.[40]

### *Ein Barn*

63. Rydym yn cydnabod bod nifer o ffynonellau data ar gael at y diben o fesur lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon, gan gynnwys y ddau arolwg a gynhaliwyd gan Chwaraeon Cymru. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am y gwahanol safbwyntiau ar ddibynadwyedd y data hwn ac i ba raddau y gall sefydliadau ei ddefnyddio i gynllunio’n strategol a

[37] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 04
[38] Cofnod y Trafodion, para 224, 19 Mehefin 2013
[39] Cofnod y Trafodion, para 23, 3 Gorffennaf 2013
[40] Cofnod y Trafodion, para 48, 3 Gorffennaf 2013

gwella lefelau cyfranogiad. Yn benodol, rydym yn pryderu bod ein tystiolaeth yn awgrymu nad yw’r data sydd ar gael yn darparu:

- digon o fanylion sy’n dangos sut mae amddifadedd yn effeithio ar lefelau cyfranogiad;
- digon o ddadansoddiad demograffig;
- digon o fanylion ar lefelau cyfranogiad grwpiau nodweddion gwarchodedig;
- digon o ddadansoddiad o’r rhwystrau diwylliannol i gyfranogiad mewn chwaraeon.

64. Gan ystyried Arolwg ar Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru yn benodol, rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan rai ymatebwyr am ei faint, y dull sampl a dibynadwyedd y data sy’n deillio o’r amrywiad o ran cyfraddau ymateb ar draws awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon a godwyd am berthnasedd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn yr arolygon. Rydym yn ymwybodol bod Chwaraeon Cymru wedi gwrthod y beirniadaethau hyn. Fodd bynnag, yng ngoleuni’r dystiolaeth a dderbyniwyd, rydym o’r farn bod yn rhaid cwestiynu’r dulliau a ddefnyddiwyd wrth gynnal yr arolygon hyn.

65. Rydym yn rhannu’r pryderon a godwyd mewn tystiolaeth am y diffyg data ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Hoffem weld rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu â’r cymunedau hyn yn cael eu harchwilio. Er mwyn gwella lefelau cyfranogiad ymhlith cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, mae’n eglur ei bod yn bwysig nodi a diwallu eu hanghenion penodol. Mae hyn yn annhebygol o ddigwydd oni bai bod data dibynadwy ar gael i lywio’r gwaith hwn. Rydym yn deall bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud argymhellion ar wella prosesau casglu data yn ei gynllun gweithredu ar y cyd â Chwaraeon Cymru.

**O ystyried yr uchod, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal adolygiad o’r holl ffynonellau data presennol sy’n mesur lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon, gan gynnwys y dull a ddefnyddir yn arolygon Chwaraeon Cymru. Dylai adolygiad y Gweinidog ganolbwyntio ar fynd i’r afael â’r pryderon am y diffyg data ar sut y mae amddifadedd, demograffeg, nodweddion gwarchodedig a rhwystrau diwylliannol yn effeithio ar lefelau cyfranogiad. Dylid adlewyrchu unrhyw welliannau sy’n ymwneud â gwaith Chwaraeon Cymru yn ei Lythyrau Cylch Gwaith blynyddol yn y dyfodol.**

**O ran cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru a sefydliadau perthnasol i nodi dull amgen a mwy effeithiol o gasglu data ar lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon o fewn y cymunedau hyn.**

## 3. Rhwystrau a chyfleoedd

### Agweddau at chwaraeon

66. Nodwyd yr angen am newid diwylliant o ran agwedd at chwaraeon fel rhwystr allweddol sy'n atal cyfranogiad gan nifer o ymatebwyr.

67. Cyfeiriodd Chwaraeon Cymru at yr angen i newid diwylliant Cymru ond cydnabuwyd ganddo na fyddai newid ymddygiad llonydd yn rhwydd ac y byddai angen marchnata soffistigedig a rhaglenni arloesol, sy'n mynd y tu hwnt i ddulliau traddodiadol.[41]

68. Amlinellodd yr angen i ddarparwyr oresgyn tair her benodol, sef diffyg gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael ym mhle; diffyg dealltwriaeth neu sgiliau i gymryd rhan mewn gweithgaredd; a mynediad at offer priodol.[42]

69. Amlygodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru hefyd yr angen am newid agwedd arwyddocaol ac i gyfranogiad mewn chwaraeon fod yn norm cymdeithasol. Roedd o'r farn bod angen ymgyrchu sylweddol a chydweithio da ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a phartneriaid masnachol er mwyn cyflawni newid.[43]

### Chwaraeon yn amgylchedd yr ysgol

70. Pwysleisiodd Chwaraeon Cymru bwysigrwydd yr ysgol o ran llunio agweddau at chwaraeon. Meddai:

> "The first experience of sport is absolutely crucial for planting the seeds for a lifelong participation and schools are absolutely central to this."[44]

71. Roedd o'r farn bod ysgolion da yn gwerthfawrogi chwaraeon fel rhan o gwricwlwm cytbwys, yn hytrach nag ychwanegiad yn unig.[45]

72. Dywedodd Chwaraeon Cymru bod nifer sylweddol o blant yn cael eu troi oddi wrth gymryd rhan mewn chwaraeon o ganlyniad i'w profiadau yn yr ysgol ac, fel y cyfryw, roedd yn bwysig cael y cynnig

[41] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09
[42] ibid
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 07
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09
[45] ibid

chwaraeon yn iawn yn yr ysgol ac o'i chwmpas. I fynd i'r afael â hyn, pwysleisiodd Chwaraeon Cymru yr angen i ddarparu'r sgiliau i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon ac i sicrhau bod y ddarpariaeth o chwaraeon yn yr ysgol yn gynhwysol. Pwysleisiodd hefyd swyddogaeth y pennaeth o ran sefydlu'r ethos cywir a'r angen am athrawon hyderus sydd wedi eu hyfforddi'n briodol.[46]

73. Awgrymodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon bod darparu cyfleusterau addas yn hollbwysig i wella lefelau cyfranogiad ac mai cyllid oedd wrth graidd popeth.[47] Cododd bryder y bydd cyfyngiadau ar gyllidebau ysgolion yn y dyfodol yn golygu na all penaethiaid ddarparu cyfleusterau o ansawdd uchel.[48]

74. Roedd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon o'r farn ei bod yn bwysig i ysgolion gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol a chwaraeon mae plant a phobl ifanc yn eu mwynhau er mwyn eu cynnwys, yn enwedig wrth geisio cynnwys merched hŷn. Fodd bynnag, nododd bwysau llwyth gwaith athrawon fel y rheswm pam na allant ganolbwyntio eu hymdrechion ar gynyddu lefelau cyfranogiad mewn gwersi a gweithgareddau allgwricwlar.[49]

75. Roedd Cymdeithas Chwaraeon Cymru o'r farn y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i chwaraeon mewn ysgolion o ystyried ei bwysigrwydd o ran sefydlu sgiliau ac arferion sy'n darparu'r sail ar gyfer eu hymddygiad fel oedolion.[50] Awgrymodd nifer o ffyrdd y gellid gwneud hyn, gan gynnwys mwy o amser i Addysg Gorfforol mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon a chysylltiadau gwell rhwng ysgolion a chlybiau lleol.[51]

### Rhwystrau i fenywod a merched

76. Cyfeiriodd nifer o dystion at yr angen i fynd i'r afael â lefelau cyfranogiad ymhlith merched hŷn. Yn ôl Arolwg 2011 ar Chwaraeon Ysgol, roedd dirywiad dramatig i'r mwynhad o chwaraeon ysgol ymhlith disgyblion benywaidd.[52] Roedd y tueddiad yn amlwg unwaith eto yn Arolwg 2013 ar Chwaraeon Ysgol, a ddangosodd bod 44% o

[46] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09
[47] Cofnod y Trafodion, para 89, 27 Mehefin 2013
[48] Cofnod y Trafodion, para 168, 27 Mehefin 2013
[49] Cofnod y Trafodion, para 97, 27 Mehefin 2013
[50] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 07
[51] ibid
[52] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09

fechgyn yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn aml o'i gymharu â 36% o ferched.

77. Er efallai fod disgyblion benywaidd yn gwerthfawrogi chwaraeon, nid yw'n diwallu eu hanghenion wrth iddynt fynd yn hŷn yn ôl Chwaraeon Cymru.[53]

78. Roedd y rhesymau a roddwyd am hyn yn cynnwys y ffaith bod llai o chwaraeon ar gael (felly roeddent yn ailadroddus a diflas); llai o bwyslais ar fwynhad a mwy ar sgiliau technegol; a chanolbwynt ar gystadleurwydd a oedd yn mynd yn groes i'w dymuniad i fwynhau a chymdeithasu.[54]

79. Yn ôl Chwaraeon Cymru, mae angen mynd i'r afael â hyn trwy beidio â'u colli o chwaraeon yn gyntaf ac, yn ail, trwy sicrhau bod cynnig sy'n eu galluogi i ddychwelyd os byddant yn rhoi'r gorau i gymryd rhan am gyfnod. Dywedodd mai 'Menywod a Merched' oedd thema blaenoriaeth gorfforaethol Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i graffu ar ei waith ac yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol ac awdurdodau lleol i nodi ffyrdd o ddiwallu anghenion menywod a merched.[55]

80. Er bod merched iau (blynyddoedd 7, 8 a 9) yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn hoci a phêl-rwyd, esboniodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon eu bod yn tueddu i roi'r gorau iddi erbyn blynyddoedd 10 ac 11.[56] Roedd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon o'r farn mai delwedd y corff a'r ffaith nad oedd eu hoff weithgareddau, fel gwaith ffitrwydd neu ddawns, ar gael oedd y prif resymau am hyn.[57]

**Rhwystrau i bobl anabl**

81. Pwysleisiodd Chwaraeon Anabledd Cymru y bu twf sylweddol yn y ddarpariaeth o chwaraeon i bobl anabl yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[58]

82. Er y cynnydd hwn, dywedodd Chwaraeon Anabledd Cymru bod nifer o rwystrau yn dal i fodoli, gan gynnwys costau; lleoliad

---

[53] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09
[54] ibid
[55] ibid
[56] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 13
[57] Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2013, para 93
[58] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 14

cyfleusterau; yr angen i gynyddu capasiti clybiau prif ffrwd; tybiaethau am anabledd a chwaraeon; dibyniaeth ar eraill am gludiant; portread a sylw yn y cyfryngau; deunyddiau marchnata; a hygyrchedd ac agweddau gofalwyr.[59]

83. Dywedodd Chwaraeon Anabledd Cymru hefyd bod y ddarpariaeth o chwaraeon i bobl anabl mewn ysgolion yn fater hollbwysig ac yn faes allweddol i'w ddatblygu.[60] Yn yr un modd, mynegodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon bryder bod toriadau i gyllidebau ysgolion yn golygu ei bod yn anodd iawn i ysgolion wario'r hyn sy'n ofynnol er mwyn sicrhau y gallant ddarparu'r un cyfleoedd chwaraeon i ddisgyblion anabl a'r rhai nad ydynt yn anabl.

84. Wrth gynnig sylwadau ar rwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cymryd rhan, dywedodd Diverse Cymru:

> "not only is there still a lack of understanding of the variety of sports which cater for different impairments and individual skills, but many sports clubs assume that disabled people can only play disability sports."[61]

85. Awgrymodd bod hynny'n golygu diffyg ystyriaeth gan glybiau prif ffrwd i faterion fel hygyrchedd a chynhwysiant. Pwysleisiodd yr angen am gyfathrebu a chysylltiadau cryfach rhwng sefydliadau chwaraeon anabledd a chlybiau chwaraeon prif ffrwd.[62]

### Rhwystrau i grwpiau economaidd-gymdeithasol tlotach

86. Yn ôl arolygon Chwaraeon Cymru, mae pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon na'u cymheiriaid.[63] Yn yr un modd, dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru:

> "sport participation is influenced by a range of factors but there is good evidence to suggest a relationship with social and economic demography as those from deprived communities

---

[59] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 14
[60] Cofnod y Trafodion, para 267, 19 Mehefin 2013
[61] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 02
[62] ibid
[63] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09

tend to have lower participation rates than those from more affluent communities."[64]

87. Roedd o'r farn bod y rhesymau am hyn yn gymhleth ond ei bod yn rhesymol tybio bod costau aelodaeth clybiau, cyfleusterau ac offer yn ffactorau a oedd yn cyfrannu.[65]

88. Esboniodd Chwaraeon Cymru mai un o amcanion ei Strategaeth Tlodi Plant (2012) yw cynyddu lefelau cyfranogiad plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.

89. Dywedodd Chwaraeon Cymru ei fod wedi cynyddu ei gyllid i £150,000 y flwyddyn ar gyfer menter GemauStryd, sy'n cynnig cyfleoedd i'r plant a'r bobl ifanc mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Hefyd, roedd yn archwilio'r posibilrwydd o waith ar newid ymddygiad ac agwedd at chwaraeon mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac roedd yn gweithio'n agos â'r elusen sported., sy'n ceisio darparu cyllid ar gyfer gweithgareddau chwaraeon mewn cymunedau difreintiedig.[66]

90. Roedd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon o'r farn y gallai Strategaeth Chwaraeon Cymunedol Chwaraeon Cymru gael effaith fawr ar lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a'i bod yn cynnig cyfle gwych i blant sy'n dod o deuluoedd ag incwm isel ac sy'n byw mewn tlodi fod yn egnïol a chymryd rhan mewn chwaraeon.[67]

91. Fel Chwaraeon Cymru, pwysleisiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr angen i fynd i'r afael â'r diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol o gyfleusterau a chyfleoedd lleol ymhlith y rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig. Fel y cyfryw, roedd yn hanfodol darparu gwybodaeth leol hygyrch, gywir a chynhwysfawr y gellid ymddiried ynddi a'i nodi'n rhwydd i gymunedau er mwyn annog cyfranogiad. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei fod wedi gwneud argymhellion i'r perwyl hwn yn y cynllun gweithredu ar y cyd â Chwaraeon Cymru.

### Rhwystrau i bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol

92. Dywedodd Diverse Cymru bod angen brys i roi mynd i'r afael â homoffobia, deuffobia a thrawsffobia mewn chwaraeon ar yr un lefel a blaenoriaeth â mynd i'r afael â hiliaeth mewn chwaraeon. Nododd y

[64] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 17
[65] ibid
[66] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09
[67] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 13

diffyg esiamplau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ymhlith athletwyr proffesiynol fel rhwystr allweddol a dywedodd bod llawer o athletwyr proffesiynol yn dal i ofni ymateb cefnogwyr pe baent yn dod allan.[68]

93. Dywedodd Chwaraeon Cymru ei fod wedi gwneud gwaith ymchwil ansoddol gyda Stonewall Cymru ar safbwyntiau unigolion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ar chwaraeon yng Nghymru. Yn ôl Chwaraeon Cymru:

> "research revealed that whilst many lesbian, gay and bisexual people are interested in sport (94% of those who responded), they have also been put off by negative experiences or the perception that it is an unpleasant and unsafe environment for gay people."[69]

94. Dywedodd fod angen gwneud mwy i annog clybiau i fod yn fwy ystyriol o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a chreu clybiau mwy penodol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol lle ceir galw. O ganlyniad i'w waith ymchwil, dywedodd Chwaraeon Cymru ei fod yn lansio Siarter Chwaraeon a'i fod eisoes wedi sefydlu Fforwm Chwaraeon Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o'r prif gampau yng Nghymru. Bwriad y rhain oedd gweithredu fel llwyfan ar gyfer trafodaeth a gweithredu ar faterion yn ymwneud â rhywioldeb mewn chwaraeon.[70]

### Rhwystrau i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

95. Dywedodd Chwaraeon Cymru fod ei waith ymchwil wedi nodi nifer o ffactorau y mae'n ymddangos eu bod yn creu rhwystrau i gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig o ran cael mynediad at gyfleoedd chwaraeon, gan gynnwys: roedd cyfleusterau mewn rhai canolfannau hamdden yn anaddas i fenywod o rai mathau penodol o ffydd; roedd cyfrifoldebau teuluol a gofal plant yn rhwystr i rai menywod; a gwahaniaethu. Roedd hefyd wedi amlygu'r angen i ddatblygu mwy o weithgareddau teuluol i gynyddu cyfranogiad.[71]

---

[68] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 01
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09
[70] ibid
[71] ibid

96. Dywedodd Chwaraeon Cymru ei fod wedi sefydlu fforwm pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ne-ddwyrain Cymru yn ddiweddar (yn gweithio gyda GemauStryd) i ddod â phartneriaid sy'n darparu chwaraeon i gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig at ei gilydd, er mwyn rhannu arfer da a chefnogi mynediad.[72]

97. Fodd bynnag, dywedodd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru fod y rhwystrau sy'n wynebu'r rhai o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig rhag cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru yn fater cymhleth a bod tueddiad i symleiddio a stereoteipio'r gwahanol gymunedau heb ddealltwriaeth go iawn o ddyheadau a diwylliant y cymunedau hyn.[73]

98. Amlinellodd nifer o ffactorau sy'n effeithio ar gyfranogiad cymunedau lleiafrifoedd ethnig mewn chwaraeon. Roedd y rhain yn cynnwys hiliaeth a gwahaniaethu, ac amharodrwydd sefydliadau i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar ac oddi ar y maes chwarae; y diffyg esiamplau ac amgylcheddau chwarae diogel; y frwydr rhwng dyheadau dwyreiniol a gorllewinol i bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig; a methiant trefnwyr chwaraeon i addasu a diwygio eu harferion yn unol â chredoau diwylliannol a chrefyddol cymunedau a theuluoedd.[74]

99. Wrth ddarparu cyfleoedd chwaraeon i gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pwysleisiodd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru yr angen i ymgysylltu â'r cymunedau ar eu telerau eu hunain.[75]

100. Roedd hefyd o'r farn bod angen i sefydliadau a chyrff llywodraethu chwaraeon gydnabod a mynd i'r afael â hiliaeth a gwahaniaethu. Dywedodd mai'r broblem yw diffyg arweinyddiaeth ac amharodrwydd i dderbyn bod hiliaeth yn bodoli a sefydliadau sy'n gobeithio y bydd y mater yn diflannu hyd yn oed pan fo'n cael ei godi â nhw.[76]

101. Dywedodd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru nad yw sefydliadau chwaraeon yng Nghymru yn cael eu herio'n uniongyrchol ar gamau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â gwahaniaethu;[77] nad oedd grŵp cynghori Chwaraeon Cymru o 14 yn cynnwys yr un

[72] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09
[73] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 04
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 04
[75] ibid
[76] ibid
[77] ibid

cynrychiolydd o blith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;[78] ac na fu erioed rhaglen fanwl i dargedu cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig o ran chwaraeon a gweithgarwch corfforol.[79]

102. Pwysleisiodd yr angen am ymchwiliad trylwyr i pam nad yw pobl o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cymryd rhan mewn chwaraeon, gan gynnwys y cysylltiadau rhwng hyn a materion iechyd ehangach sy'n wynebu'r cymunedau hynny.[80]

103. Dywedodd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru mai dim ond un athro addysg gorfforol o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd yng Nghymru.[81]

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

104. Wrth gynnig sylwadau ar arwyddocâd y profiad yn yr ysgol i wella lefelau cyfranogiad, pwysleisiodd y Gweinidog waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol, yr oedd o'r farn y byddai'n helpu i baratoi chwaraeon mewn addysg ar gyfer y dyfodol. Mae'r Grŵp wedi argymell gwneud chwaraeon yn rhan graidd o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu ei ymateb i ganfyddiadau'r Grŵp maes o law.[82]

105. Dywedodd y Gweinidog bod Strategaeth Chwaraeon Cymunedol a Strategaeth Tlodi Plant Chwaraeon Cymru yn 'gosod sylfeini cadarn a fydd yn ein helpu i ymateb i'r her o gynyddu cyfraddau cyfranogi' mewn cymunedau difreintiedig.[83] Pwysleisiodd yr angen i sicrhau bod dangosyddion gwerthuso, monitro a gosod targedau yn gadarn er mwyn mesur effeithiolrwydd y Strategaethau o ran gwella lefelau cyfranogiad.[84]

106. Dywedodd y Gweinidog fod Chwaraeon Cymru yn gwneud rhagor o waith ymchwil i rwystrau i gyfranogiad mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a fyddai'n galluogi'r Llywodraeth i fod mewn

---

[78] Cofnod y Trafodion, para 12, 27 Mehefin 2013
[79] Cofnod y Trafodion, para 58, 27 Mehefin 2013
[80] Cofnod y Trafodion, para 76, 27 Mehefin 2013
[81] Cofnod y Trafodion, para 31, 27 Mehefin 2013
[82] Cofnod y Trafodion, 3 Gorffennaf 2013, para 7
[83] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 15
[84] RoP, para 69, 3 July 2013

sefyllfa sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu polisi yn y maes hwn.[85]

107. Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod codi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid allweddol a chyrff llywodraethu o'r rhwystrau i gyfranogiad cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fan cychwyn. Cydnabuwyd ganddo y byddai angen gwneud gwaith dros gyfnod estynedig o amser er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn. Dywedodd y Gweinidog y byddai ganddo ddiddordeb mewn gweithio ymhellach ar y materion hyn gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru.[86]

108. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd bod Llywodraeth Cymru yn trin honiadau o wahaniaethu ar sail hil mewn chwaraeon yn ddifrifol iawn ac y byddai gofyn ymdrin â nhw mewn ffordd gwbl bendant.[87]

109. Croesawodd y Gweinidog y cynnydd a wnaed o ran chwaraeon anabledd a'r cynnydd trawiadol i gyfranogiad yn gyffredinol. Fodd bynnag, cydnabuwyd ganddo fod rhagor o waith i'w wneud a rhagor o welliant i'w wneud. Roedd o'r farn y bydd adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol, a gwaith dilynol, yn mynd i'r afael â chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ysgolion yn gyffredinol i bob disgybl.[88]

110. Dywedodd y Gweinidog fod Chwaraeon Cymru wedi gwneud rhywfaint o waith diddorol a gwerthfawr ar rywioldeb a chyfranogiad mewn chwaraeon, gan weithio gyda Stonewall, i sicrhau bod pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol 'yn gallu mwynhau cyfranogi mewn chwaraeon a'u bod yn gallu teimlo'n ddiogel, bod croeso iddynt ac nad oes camwahaniaethu yn eu herbyn'.[89]

### *Ein Barn*

111. Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylai wneud Addysg Gorfforol (AG) yn bwnc craidd yng nghwricwlwm Cymru mewn ysgolion. Rydym o'r farn bod y penderfyniad hwn yn hollbwysig i gynyddu pwysigrwydd chwaraeon mewn ysgolion i ddisgyblion.

---

[85] Cofnod y Trafodion, 3 Gorffennaf 2013, para 27
[86] Cofnod y Trafodion, 3 Gorffennaf 2013, para 84 - 90
[87] Cofnod y Trafodion, 3 Gorffennaf 2013, para 86
[88] Cofnod y Trafodion, 3 Gorffennaf 2013, para 95
[89] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 15

Edrychwn ymlaen at ymateb y Llywodraeth a gofynnwn i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y cyfle cyntaf sydd ar gael.

112. Nodwn yr awgrym bod angen hyfforddiant gwell i athrawon mewn AG ac i ysgolion chwilio am ffyrdd o gynnwys pob disgybl mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Rydym yn disgwyl i'r Llywodraeth fynd i'r afael â'r materion hyn yn ei hymateb i adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol.

**Roedd yn peri pryder i ni glywed am y diffyg athrawon Addysg Gorfforol o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i fynd i'r afael â hyn.**

113. Rydym hefyd o'r farn y dylai Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru ystyried a oes digon o gyfleoedd ar gael i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg.

114. Rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd am y rhwystrau i gyfranogiad mewn chwaraeon a wynebir gan grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a rhwystrau ariannol yn benodol. Rydym yn croesawu Strategaeth Chwaraeon Cymunedol a Strategaeth Tlodi Plant Chwaraeon Cymru, yr ydym yn cytuno sydd â'r potensial i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau a nodwyd yn y dystiolaeth.

**I'r perwyl hwn, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i ddiffinio a chyhoeddi'r canlyniadau a fydd yn cael eu defnyddio i fesur llwyddiant ei Strategaeth Chwaraeon Cymunedol a'i Strategaeth Tlodi Plant. Rydym hefyd yn argymell bod trefniadau cadarn yn cael eu gwneud i fonitro a gwerthuso llwyddiant y Strategaethau hyn, ac i ddeall eu heffaith ar lefelau cyfranogiad.**

115. Nodwn fod y cynllun gweithredu ar y cyd i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a baratowyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru yn cynnwys argymhellion i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth leol mewn cymunedau difreintiedig am gyfleusterau hamdden a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Cyfeiriwn at ein cais i'r cynllun gael ei gyhoeddi, a ddylai gynnwys manylion ymateb y Llywodraeth i argymhellion i wella'r ddarpariaeth o wybodaeth mewn cymunedau difreintiedig.

**Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i sefydlu rhaglen i nodi ac yna mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfranogiad mewn chwaraeon sy'n benodol i bobl o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Dylai hyn gynnwys gwneud gwaith ymchwil i ddeall yn well beth yw'r rhwystrau hyn.**

**Yn dilyn ymlaen o hyn, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi cynllun gweithredu yn nodi sut mae'n bwriadu gwella lefelau cyfranogiad ymhlith pobl mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Dylai hyn gynnwys cyfres o ganlyniadau y gellir eu mesur.**

116. Rydym yn cydnabod y pryderon gan dystion am yr angen i fynd i'r afael â homoffobia, deuffobia a thrawsffobia mewn chwaraeon. Er ein bod yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Chwaraeon Cymru, roedd yn eglur o'i dystiolaeth ei fod yn cydnabod yr angen i wneud rhagor o waith ar hyn. Rydym o'r farn y bydd yn bwysig i Chwaraeon Cymru adeiladu ar y gwaith y mae wedi ei wneud i fynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, ac yn enwedig o ran y ffordd y mae'n ymgysylltu â Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol yn hyn o beth. Edrychwn ymlaen at weld rhagor o gynnydd yn y maes hwn.

**O ran menywod a merched, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn sicrhau bod rhagor o waith yn cael ei wneud i nodi ffyrdd o annog merched i gymryd rhan mewn chwaraeon. Dylai hyn gynnwys gwaith ymchwil i'r mathau o chwaraeon neu weithgareddau sy'n apelio i ferched yn benodol, a'r ffactorau sy'n effeithio ar eu cyfranogiad.**

117. Croesawn y ffaith bod cyfranogiad menywod a merched mewn chwaraeon wedi ei gynnwys fel blaenoriaeth gorfforaethol i Chwaraeon Cymru ac edrychwn ymlaen at weld cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn.

## 4. Swyddogaeth awdurdodau lleol

### Pwysau ariannol

118. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor nad yw'n ymddangos bod toriadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith fawr ar y defnydd o gyfleusterau hamdden[90] gan y 'bu awdurdodau lleol yn dod o hyd i fodelau cyflwyno mwy effeithlon ac effeithiol ar gyfer eu gwasanaethau chwaraeon a hamdden', gan gynnwys allanoli gwasanaethau i gontractwyr neu ymddiriedolaethau.[91]

119. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod y pryder bod gwasanaethau hamdden yn agored i doriadau cyllideb, ond fe'i gwnaeth yn eglur bod awdurdodau yn eu gwerthfawrogi'n fawr ac yn deall pwysigrwydd y gwasanaethau hyn i'r cyhoedd.[92]

120. Fodd bynnag, cydnabuwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gallai toriadau i'r gyllideb yn y dyfodol effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau a bod pryder penodol ynghylch p'un a fydd gan awdurdodau lleol ddigon o bobl ar lawr gwlad.[93]

121. Wrth i bwysau ar gyllidebau gynyddu, cododd Cymdeithas Chwaraeon Cymru bryder y byddai darpariaeth chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol mewn perygl o ddirywio ymhellach dim ond oherwydd ei bod yn darged rhwydd ar gyfer toriadau. Awgrymodd y dylid rhoi ystyriaeth i'w gwneud yn ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden.

### Cydweithio i ddarparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden

122. Amlygodd Chwaraeon Cymru yr angen am fwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol o ran darparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden.[94] Dywedodd fod gostyngiadau cynyddol i'r gyllideb wedi arwain i rai awdurdodau lleol wneud pethau'n wahanol a gweithio fwy ar y cyd, ond nad oedd hyn yn gyffredin ledled Cymru.

---

[90] Cofnod y Trafodion, para 191, 27 Mehefin 2013
[91] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 05
[92] Cofnod y Trafodion, para 193, 27 Mehefin 2013
[93] Cofnod y Trafodion, para 191, 27 Mehefin 2013
[94] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09

123. Dywedodd Chwaraeon Cymru fod rhywfaint o gynnydd wedi ei wneud wrth i Brif Swyddogion Hamdden gytuno ar ddangosyddion yn seiliedig ar ganlyniadau i chwaraeon o ran cydweithio awdurdodau lleol. Cyfeiriodd at sefydlu Grŵp Cymheiriaid Cenedlaethol i graffu ar y gwaith hwn. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn debyg bod cynnydd wedi bod yn arafach nag y byddai wedi dymuno yn gyffredinol.[95]

124. Roedd Chwaraeon Cymru o'r farn y byddai gwelliannau i gydweithio yn gofyn am arweiniad gweinidogol mewn llawer o achosion ac y bydd hyn yn digwydd trwy benderfyniadau gwleidyddol am fodelu llywodraeth leol yn y dyfodol.[96]

### Cynyddu'r ddarpariaeth o gyfleusterau chwaraeon

125. Pwysleisiodd llawer o dystion fod y cyfleusterau cymunedol sydd ar gael yn hollbwysig i lefelau cyfranogiad.

126. Meddai Iechyd Cyhoeddus Cymru:

> "Fundamentally, there needs to be a major push on providing access to a wide range of community sports, recreation and physical activity opportunities that are cheap, easy to get to, [and] run by enthusiastic champions."[97]

127. Pwysleisiodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru bwysigrwydd dull cymuned gyfan o gynllunio cyfleusterau hamdden er mwyn sicrhau bod anghenion cymunedau'n cael eu diwallu.[98]

128. Dywedodd Chwaraeon Cymru hefyd ei fod yn annog Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol i gydweithio ar draws chwaraeon a chydag awdurdodau lleol, yn enwedig wrth gynllunio cyfleusterau yn y dyfodol.[99]

129. Ar y mater o ysgolion bro yn agor eu darpariaeth at ddefnydd y gymuned, dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon na ddylid disgwyl i athrawon staffio cyfleusterau ar ôl oriau ysgol. Roedd o'r farn

---

[95] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09
[96] Cofnod y Trafodion, para 56, 19 Mehefin 2013
[97] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 17
[98] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 07
[99] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 09

mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu mynediad cymunedol ehangach at gyfleusterau chwaraeon a hamdden ysgolion.[100]

130. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod ysgolion yn adnodd pwysig yn y gymuned leol ac y ceir enghreifftiau eithriadol o dda lle mae mynediad i'r gymuned leol wedi bod yn hynod lwyddiannus.[101] Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae llawer o'r buddsoddiad a wnaed mewn rhai awdurdodau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sicr wedi bod yn gysylltiedig â'r canolbwynt cymunedol hwnnw.[102] Esboniodd fod awdurdodau'n gweithio'n agos gydag ysgolion â chyfleusterau chwaraeon a hamdden ar y safle a bod ganddynt gytundebau lefel gwasanaeth ar waith, a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.[103]

### Cynllun Nofio Am Ddim

131. Lansiwyd Cynllun Nofio Am Ddim Llywodraeth Cymru yn 2003. Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn gwario £3.5 miliwn y flwyddyn i ddarparu nofio am ddim i'r rhai 16 oed ac iau ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol, a phobl 60 a hŷn y tu allan i wyliau'r ysgol. Ceir ymrwymiad yn y *Rhaglen Lywodraethu* i ymestyn y Cynllun i gyn-filwyr a phersonél y lluoedd arfog sydd â chaniatâd i fod yn absennol.

132. Er bod nifer y rhai dros 60 oed sy'n manteisio ar nofio am ddim wedi parhau i gynyddu, nodwyd yn adroddiad blynyddol diweddaraf y *Rhaglen Lywodraethu* ei fod wedi gostwng ymhlith plant wrth i'r dull symud at hyrwyddo sesiynau ffurfiol fel gwersi nofio.

133. Amlygodd sawl ymatebwr gyfraniad gwerthfawr y Cynllun Nofio Am Ddim gyda'r nod o gynyddu lefelau cyfranogiad.

134. Dywedodd Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru:

> "Participating in free swimming lessons for children and young people can potentially set a lifelong trend to being physically active and healthy."[104]

135. Dywedodd y darparwyd 4.3 miliwn o sesiynau nofio am ddim i blant a phobl ifanc rhwng 2004 a 2010. Fodd bynnag, cydnabuwyd y

---

[100] Cofnod y Trafodion, para 174, 27 Mehefin 2013
[101] Cofnod y Trafodion, para 196, 27 Mehefin 2013
[102] Cofnod y Trafodion, para 195, 27 Mehefin 2013
[103] Cofnod y Trafodion, para 196, 27 Mehefin 2013
[104] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 12

gostyngiad diweddar i lefelau cyfranogiad ganddo hefyd, a oedd yn dangos bod nifer y sesiynau nofio cyhoeddus am ddim y manteisiwyd arnynt gan y rhai 16 oed ac iau wedi gostwng o 807,837 yn 2004-5 i 421,076 yn 2012-13.[105]

136. O ganlyniad i'r gwaith roedd wedi ei wneud ar lefelau cyfranogiad, argymhellodd Rhwydwaith Dileu Tlodi Cymru y dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad llawn o'r Cynllun Nofio Am Ddim. Argymhellodd hefyd y dylai'r Llywodraeth fynd i'r afael â'r amrywiad o ran y defnydd o'r Cynllun mewn gwahanol awdurdodau lleol. Galwodd ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael â chostau ychwanegol nofio y tu allan i'r cynllun. Galwodd ar y Llywodraeth hefyd i fonitro effaith cau canolfannau hamdden ac allanoli gwasanaethau hamdden ar y Cynllun.[106]

137. Esboniodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod yr amrywiad o ran darpariaeth awdurdodau lleol weithiau oherwydd y math o byllau sydd ar gael. Dywedodd bod pob awdurdod wir yn cyflawni o ran darparu nofio am ddim, ymhell y tu hwnt i unrhyw gyllideb a roddwyd. Nododd fod canrannau'r plant yng Nghymru dan 11 oed sy'n gallu nofio wedi cynyddu'n sylweddol, a bod y darlun yng Nghymru wedi gweddnewid yn llwyr yn ystod y ddwy neu dair blynedd diwethaf, yn enwedig os byddwch yn cymharu'r canrannau ar gyfer Cymru â'r rhai ar gyfer Lloegr.[107]

138. Nododd Chwaraeon Cymru fod y Cwricwlwm Cenedlaethol yn disgwyl i bob plentyn allu nofio erbyn eu bod yn 11 oed, ond nad yw'r disgwyliad hwn yn cael ei fodloni. Roedd o'r farn bod hwn yn fater o flaenoriaethu, a oedd yn fater i Weinidogion yn y pen draw.[108]

139. Hysbysodd Chwaraeon Cymru hefyd am wahaniaethau eithaf sylweddol ar draws awdurdodau lleol o ran nifer y plant a oedd yn gallu nofio. Fodd bynnag, dywedodd fod awdurdodau wedi gwneud ymrwymiad i fynd i'r afael â'r mater.[109]

[105] Tystiolaeth ysgrifenedig PS 12
[106] ibid
[107] Cofnod y Trafodion, para 207 – 208, 27 Mehefin 2013
[108] Cofnod y Trafodion, para 100, 19 Mehefin 2013
[109] ibid

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

140. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn poeni'n fawr am yr heriau ariannol a wynebir gan awdurdodau lleol a goblygiadau'r rhain i'r ddarpariaeth o gyfleusterau hamdden. Dywedodd fod yr awdurdodau wedi ymrwymo'n llwyr i'r ddarpariaeth o wasanaethau chwaraeon a hamdden ond pwysleisiodd yr angen brys iddynt ddod o hyd i well ffyrdd o ddarparu gwasanaethau.[110]

141. Wrth gynnig sylwadau ar swyddogaeth Llywodraeth Cymru o ran annog cydweithio rhwng awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden, esboniodd y Gweinidog ei fod yn ceisio bwrw ymlaen ag agenda Simpson. Dywedodd fod newidiadau yn cael eu gwneud a bod y rhain yn cael eu gyrru'n rhannol gan yr hinsawdd ariannol gyfredol. Fodd bynnag, cydnabuwyd ganddo fod angen gwneud rhagor o waith i wella cydweithio a gweithio ar y cyd ar draws awdurdodau.[111]

142. Roedd y Gweinidog yn derbyn bod nifer yr ysgolion bro yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Pwysleisiodd ei bod yn gwneud synnwyr perffaith, yng ngoleuni'r pwysau ariannol presennol, i ddefnyddio mwy ar ein hadeiladau ysgol presennol ar gyfer chwaraeon, hamdden a gweithgarwch corfforol. Roedd y Gweinidog yn cydnabod y gellid gwneud gwelliannau o ran y defnydd o gyfleusterau ysgolion gan y gymuned ehangach a dywedodd y byddai'n awyddus i weithio gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y mater hwn.[112]

143. Amlygodd y Gweinidog hefyd yr angen i Chwaraeon Cymru, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd wrth ystyried y ddarpariaeth o gyfleusterau.[113]

144. Cydnabuwyd gan y Gweinidog bod anghysondeb rhwng awdurdodau lleol yn broblem o ran nifer y plant 11 oed sy'n gallu nofio a'r angen i sicrhau mwy o gysondeb ar draws pob awdurdod lleol.[114]

---

[110] Cofnod y Trafodion, para 53, 3 Gorffennaf 2013
[111] Cofnod y Trafodion, para 51, 3 Gorffennaf 2013
[112] Cofnod y Trafodion, para 60, 3 Gorffennaf 2013
[113] Cofnod y Trafodion, para 77, 3 Gorffennaf 2013
[114] Cofnod y Trafodion, para 103, 3 Gorffennaf 2013

***Ein barn***

145. Yn yr hinsawdd ariannol gyfredol ac yng nghyd-destun y Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2014-15, mae'n eglur y bydd disgwyl i awdurdodau weithio â chyllidebau llai am y dyfodol rhagweladwy. Rydym yn pryderu felly am oblygiadau lleihau cyllidebau i ddarparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden ac unrhyw effaith ddilynol ar lefelau cyfranogiad.

146. Er nad oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden, nodwn fod cytuno eang y gall gwario ar wasanaethau o'r fath fod yn rhan fawr o strategaethau ataliol, yn enwedig o ran iechyd.

**Yng ngoleuni hyn, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol i asesu effaith y gostyngiadau i gyllidebau awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau chwaraeon a hamdden ar fynediad a fforddiadwyedd.**

147. Tra ein bod yn aros am ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol i'r Gweinidog, ynghyd â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, ddarparu llyw eglur i awdurdodau lleol o ran y ddarpariaeth o wasanaethau chwaraeon a hamdden.

148. O ystyried pwysigrwydd sicrhau bod gan gymunedau fynediad at gyfleusterau hamdden sy'n diwallu eu hanghenion, rydym o'r farn y gellid gwneud mwy i sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf posibl o gyfleusterau cymunedol a chyhoeddus i ddarparu cyfleoedd chwaraeon i bawb (e.e. y defnydd o gyfleusterau ysgolion y tu allan i oriau'r ysgol).

**Rydym yn argymell bod y Gweinidog a Chwaraeon Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi cyfleoedd i gynyddu a gwella mynediad at gyfleusterau hamdden ledled Cymru.**

149. O ran y Cynllun Nofio Am Ddim, nodwn y gwahanol safbwyntiau ar lwyddiant y Cynllun ac ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran gwella nifer y plant dan 11 oed sy'n gallu nofio. Rydym yn pryderu am y dystiolaeth o amrywiad o ran darpariaeth ar draws awdurdodau lleol.

**Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal adolygiad o'r Cynllun Nofio Am Ddim er mwyn nodi ardaloedd lle mae'r nifer**

**sy'n manteisio arno yn isel a'r rhesymau am hyn, ac yn adrodd yn ôl i ni ar ei ganfyddiadau.**

**Rydym yn argymell hefyd bod y Gweinidog yn gweithio gydag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r amrywiad yn y ddarpariaeth o nofio am ddim ledled Cymru. Dylai'r Gweinidog hefyd gyhoeddi cynllun gweithredu yn nodi sut mae'n bwriadu cynyddu nifer y plant dan 11 oed sy'n gallu nofio.**

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn: www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1306

**19 Mehefin 2013**

| | |
|---|---|
| Dr Huw Jones, Prif Weithredwr | Chwaraeon Cymru |
| Sarah Powell, Cyfarwyddwr Corfforaethol | Chwaraeon Cymru |
| Anne Hamilton, Rheolwr Cyffredinol | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| Jon Morgan, Cyfarwyddwr Gweithredol | Chwaraeon Anabledd Cymru |
| Michelle Daltry, Rheolwr Partneriaeth | Chwaraeon Anabledd Cymru |

**27 Mehefin 2013**

| | |
|---|---|
| Sunil Patel, Rheolwr Ymgyrch | Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru |
| Ashok Ahir, Aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru | Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru |
| Stuart Williams, Prif Swyddog Undebau | Undeb Cenedlaethol yr Athrawon |
| Peter Gomer, Cynghorydd Polisi, Hamdden, Diwylliant a Threftadaeth | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Iwan Davies, Pennaeth Diwylliant, Twristiaeth a Hamdden | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

**3 Gorffennaf 2013**

| | |
|---|---|
| John Griffiths AC | Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon |
| Huw Brodie, Cyfarwyddwr, Is-adran Diwylliant a Chwaraeon | Llywodraeth Cymru |
| John Beynon, Uwch Gynghorydd Polisi Chwaraeon | Llywodraeth Cymru |
| Edwina Hart AC | Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth |

**26 Medi 2013**

| | |
|---|---|
| Jonathan Ford | Prif Weithredwr, Cymdeithas Bêl-droed Cymru |
| Neil Ward | Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru |
| Llyr Roberts | Rheolwr Ymchwil a Gwerthuso, Cymdeithas Bêl-droed Cymru |

## Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a’r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=6360

| **Sefydliad** | **Cyfeirnod** |
| --- | --- |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | PS 01 |
| Diverse Cymru | PS 02 |
| Cyngor Sir Benfro | PS 03 |
| Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth | PS 04 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | PS 05 |
| Cyngor Sir Powys | PS 06 |
| Cymdeithas Chwaraeon Cymru | PS 07 |
| Sported. | PS 08 |
| Chwaraeon Cymru | PS 09 |
| Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru | PS 10 |
| Criced Cymru | PS 11 |
| Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru | PS 12 |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon | PS 13 |
| Chwaraeon Anabledd Cymru | PS 14 |
| Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon | PS 15 |
| Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | PS 16 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | PS 17 |